

YSTAFELL NEWYDDION Y BOBL

PENBLETH YR AIL GARTREF

YSGRIFENNWYD GAN WIL GRITTEN



A allai apelio at foesoldeb fod yn rhan o'r ateb i'r argyfwng tai gwyliau mewn cymunedau gwledig?

Dychmygwch eich bod chi'n byw mewn dinas fawr. Rydych chi'n credu eich bod chi'n berson da. Mae gennych chi swydd sy'n talu'r biliau ac sy'n eich galluogi chi i roi bwyd ar y bwrdd. Un diwrnod, mae eich nain yn marw. Mae'n gadael fflat fechan i chi yn Kensington. Mae'n werth miliwn o bunnau.

Yn y papur newydd mae atodiad am dai ar werth mewn pentrefi bach. Mae hefyd erthygl yn yr adran ariannol sy'n dweud mai peth doeth yw buddsoddi mewn eiddo. Felly rydych chi'n gwerthu fflat nain ac yn dechrau edrych am ail dŷ yn y wlad.

Rydych chi'n syrthio mewn cariad â lle, tŷ semi tair ystafell wely mewn pentref bach tlws nad ydych chi'n gallu ynganu ei enw. Mae'n berffaith, ond mae gwaith yn eich cadw chi'n y ddinas am y rhan fwyaf o wythnosau, ac mae'r gaeaf mor llwyd yng nghefn gwlad.

Nawr dychmygwch eich bod chi'n berson ifanc. Rydych chi'n byw gyda'ch rhieni mewn pentref bach yng nghefn gwlad. Rydych chi a'ch partner eisiau cael babi. Mae'n ymddangos yn synhwyrol i ddod o hyd i gartref gyda'ch gilydd. Rydych chi wedi cael eich geni a'ch magu ymhlith pobl y mae eu diwylliant nhw'n rhan ohonoch chi, a'u hiaith nhw ydi'ch iaith chi. Eich pobl chi. Dychmygwch fod prisiau tai yn y pentref deg waith yn uwch na phan brynodd eich rhieni eu tŷ semi bach tair ystafell wely yn ôl yn y 1970au. Ond dydi cyflogau'r ardal ddim wir wedi codi mewn termau real ers hynny. Mae hi'n amhosib i chi a'ch partner allu fforddio prynu tŷ, felly rydych chi'n symud i ddinas fawr, rydych chi'n dod o hyd i swydd sy'n talu'r biliau ac sy'n rhoi bwyd ar y bwrdd.

Nawr dychmygwch eich bod chi'n rhywun hen. Gadewch i ni ddweud eich bod chi'n nain neu'n daid i'r person ifanc hwnnw a symudodd i'r ddinas. Pan oeddech chi'n iau roeddech chi'n adnabod pawb yn y pentref. Roeddech chi'n gwybod pwy oeddech i ymddiried ynddyn nhw a phwy i beidio, a phwy fyddai'n sylwi pe bai'ch trefn ddyddiol chi'n newid, ac os nad oedden nhw'n eich gweld chi am gyfnod, pwy fyddai'n dod i chwilio amdanoch chi. Un dydd rydych chi'n syrthio. Dydi o'n ddim byd difrifol, ond allwch chi ddim codi. Mae'n oer ar y llawr, ond fe ddaw rhywun i'ch helpu chi, yn hwyr neu'n hwyrach.

“a yw ein hopsiynau wedi'u cyfyngu i drethiant uwch a newidiadau i ddeddfwriaeth?”

Os ydych chi'n teimlo'n euog wrth ichi ddarllen hyn, cofiwch: nid chi sydd ar fai. Ond y system. Cawsoch chi eich annog i brynu'r tŷ bach hwnnw yn y wlad. Cawsoch chi gyngor ariannol cadarn. Doeddech chi ddim yn gwybod dim gwell.

Neu oeddech chi? Ai gweithred o hunanoldeb anfwriadol oedd o, neu ydych chi'n sylfaenol anfoesol?

Mae meddwl am y peth yn gwneud imi deimlo'n rhyfedd. Felly dwi'n ffonio ffrind sy'n berchen ar dŷ gwyliau yng ngogledd Cymru, sydd hefyd yn digwydd bod yn ddoethur mewn

seicoleg. Doedd hi ddim am gael ei henwi felly fe alwn ni hi'n Jenny. Dwi'n gofyn i Jenny a yw hi'n sylfaenol anfoesol.

'Dwi ddim yn meddwl mod i'n anfoesol,' meddai wrtha i. 'Nes i brynu tŷ milltiroedd o unrhyw bentref ac oedd wedi bod ar y farchnad ers blynnyddoedd ac roedd gen i'r arian i'w wneud i fyny. Dydw i ddim wir yn meddwl y byddai llawer o neb eisiau byw yno.' Erbyn hyn mae hi'n rhentu'r tŷ ar airbnb.

Dwi'n gofyn iddi a fyddai hi'n dal i brynu eiddo fel buddsoddiad yng Nghymru nawr ei bod hi wedi treulio dipyn o amser yma ac wedi clywed straeon pobl am bentrefi gwag a phrinder tai. 'Byddwn i'n dal yn prynu'r tŷ yma, ond mae'n rhaid i gartrefi fod yn bwysicach na thai gwyliau,' mae'n ateb, yn ddigon chwyrn, 'oherwydd heb y bobl y cyfan sydd gennych chi yw parc cenedlaethol ffug'.



Blaenau Ffestiniog. Llun Andrew Sterry

Ym mis Mehefin 2021, dechreuwyd ymgyrch ym Mhen Llŷn, un o'r ardaloedd yng ngogledd Cymru yr effeithiwyd arni waethaf, gan grŵp o'r enw Hawl i Fyw Adra. Wedi'u sefydlu yn sgil y nifer fawr o dai sy'n cael eu prynu fel tai gwyliau a'r diffyg cefnogaeth sydd i bobl leol, mae eu prif ofynion yn ymddangos yn ddigon rhesymol:

Yr hawl i fyw lle cawsoch chi eich magu a'r hawl i'ch cymuned chi barhau.

Dywedodd eu llfarydd: 'Ein bwriad yw ennill cydymdeimlad, dealltwriaeth a chydweithrediad gan bobl o bob cefndir. Rydyn ni'n pwysleisio bod gan y Llywodraethau Cenedlaethol a Lleol y pŵer i ddatrys y sefyllfa. Rydym ni'n galw arnynt i reoleiddio ail gartrefi a'r farchnad dai i warchod ein hunaniaeth a'n diwylliant ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.'

“cawsoch chi eich annog i brynu'r tŷ bach
hwnnw yn y wlad. Cawsoch chi gyngor
ariannol cadarn. Doeddech chi ddim yn
gwybod dim gwell”

Yn gynharach eleni, fe wnaeth Hawl i Fyw Adra apêl emosiynol yn erbyn ail gartrefi, ysgrifennodd un person y slogan ar y traeth mewn pentref bychan lle mae 70% o'r tai yn dai gwyliau ac aeth yn feiral yng Nghymru.

'Mae'r sefyllfa ail gartrefi mewn cymunedau ar draws Cymru yn argyfyngus,' meddai Mabon Ap Gwynfor, AS Dwyfor Meirionnydd. 'Mae'r gorddefnydd o eiddo fel ail gartrefi mewn cymunedau ledled Cymru yn prisio pobl leol allan o'r farchnad dai, gan roi pwysau annerbyniol ar wasanaethau lleol yn y tymhorau prysur, a chreu trefi a phentrefi diffaith, hanner gwag yn y gaeaf.'

Mae bron pawb yn cytuno bod rhaid gwneud rhywbeth.

Ym mis Medi eleni, mewn ymateb i lu o wrthdystiadau gwleidyddol ac ymgyrchoedd fel Hawl i Fyw Adra, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddan nhw'n cau'r 'bwlch' sy'n caniatáu i rai perchnogion tai gwyliau dalu cyfraddau treth busnes yn hytrach na threth cyngor, a rhoi'r hawl i gynghorau lleol godi hyd at 300% o dreth ychwanegol ar dai gwyliau, o fis Ebrill 2023.

Gydag arian eisoes wedi'i gasglu o'r cynllun treth cyngor ychwanegol o 100%, mae Cyngor Gwynedd wedi lansio'u 'Cynllun Prynu Cartref', pecyn cymorth ariannol sydd wedi'i anelu at helpu pobl leol brynu eu cartref cyntaf. Maen nhw hefyd wedi cyhoeddi newidiadau sy'n 'ymdrin â'r gyfraith cynllunio a chyflwyno cynllun cofrestru statudol ar gyfer llety gwyliau'.

Mae'r datrysiadau hyn yn ymddangos yn rhesymol yng ngoleuni difrifoldeb yr argyfyngau tai ac iaith, ond a yw ein hopsiynau wedi'u cyfyngu i drethiant uwch a newidiadau i ddeddfwriaeth?

Efallai y gellid defnyddio rhywfaint o'r refeniw treth ychwanegol o'r dreth llety gwyliau i lansio ymgyrch cyhoeddusrwydd tosturiol a gonest gyda'r nod o ddwyn calonnau a meddyliau perchnogion tai gwyliau posib. Rhannu gwirionedd syml rhwng y bobl sy'n cael eu heffeithio a'r rhai sy'n gyfrifol am yr effaith gynyddol, fel bod pawb o leiaf yn deall y sefyllfa ac yn gwneud penderfyniadau gwybodus.

Lansiwyd apêl debyg i synnwyr pobl o foesoldeb a thegwch yng Nghernyw yn ddiweddar, lle lansiwyd ymgyrch ariannu torfol i ofyn i berchnogion tai gwyliau gyfrannu eu had-daliad ynni o £400, y mae llywodraeth y DU yn ei roddi y gaeaf hwn, er mwyn helpu pobl dlotach i ymdopi â'r argyfwng costau byw. Eu nod yw codi £5.4 miliwn.

Gallasai llwyddiant neu fethiant y cynllun i apelio at gydwybod perchnogion eiddo niferus fod yn ffodd dda o ragweld a fyddai ymgyrch o'r fath yn gweithio mewn mannau eraill.

GALWAD



CREATIVITY IN THE UK



Cymru Greadigol
Creative Wales

Cynhyrchir GALWAD can Casgliad Cymru a'i gomisiynu gan Cymru Creadigol fel rhan o 'UNBOXED: Creadigrwydd yn y DU'.